# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc
*Clerk*
**Caroline Jones**
01248 602131
CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar nos Iau y 12fed o Fedi am 1900yh.**

**1. PRESENNOL**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Geraint Hughes

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Sir Dafydd Meurig

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cyng. Lowri Evans.

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Absennol - Y Cynghorydd Alun Thomas

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11fed o Orffennaf 2024.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Arwyddion Maes y Groes –** Adroddwyd Y Cynghorydd Dafydd Meurig fod aelod o staff Cyngor Gwynedd yn gyflogedig i edrych ar enwau lleoedd. Drwy hyn mae'r Cyngor wedi cytuno i osod yr arwyddion. Y Cyng. Dafydd Meurig am drafod lleoliad gosod yr arwyddion gyda'r Cyng. Evan Jones. Dim diweddariad.

**4.2 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes –** Mr Andrew Gregson wedi bod mewn cysylltiad gyda Y Cyng Evan Jones i drafod y posibilrwydd o 'chevrons' ar y lôn. Y Clerc i gysylltu gyda Mr Gregson am ddiweddariad.

**4.3 Bin Halen Bryn Derwas –** Cafwyd trafodaedd gyda Mr Ian Morgan mewn perthynas â phrynnu bin halen. Ian Morgan am yrru dyfynbris.

**4.4 Safle bws Talybont -** Y Cyng Wyn Bowen Harris wedi bod yn llwyddiannus gyda cais grant am £500 gan 'Gwynedd Creadigol'. Yr arlunydd Elen Williams am gychwyn y darlun wythnos nesaf.
Derbynwyd rhodd o £200 at y prosiect gan trefnwyr Dragon's back race.

**4.5 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn** – Cafwyd trafodaeth gyda Mr Ian Morgan, mae ar raglen waith Cyngor Gwynedd. 12-9-24.

**4.6 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Cyfarfu Eilir Morgan, Cyngor Gwynedd a'r Cyng Kevin Williams yn y safle. Mae'r gwaith ar raglen gwaith Cyngor Gwynedd. Mr Ian Morgan yn cadarnhau hyn 12-9-24.

**4.7 Dwr ar y ffordd Coed Uchaf, Lôn Goed -** Mae'r gwaith hwn dal angen ei gwblhau ac yn parhau ar raglen waith Cyngor Gwynedd. Mae'r Uwch Beiriannydd wedi nodi bod angen cryfhau ymyl y ffordd mewn cwpwl o safleoedd yn ogystal a gwaith ffosio. Cadarnhad gan Mr Ian Morgan 12-9-24.

**4.8 Diffyg biniau baw ci ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Y sefyllfa bresenol yw nad yw'n glir pwy sydd gyda cyfrifoldeb dros y llwybr beicio a'r man tynnu mewn. Y Cyng. Dafydd Meurig am gysylltu gyda Mr Simpson am ddiweddariad. Dim diweddariad.

**4.9 Tai i bobl lleol –** Llythyr wedi ei hanfon at Mr Gibbard a'r Cynghorydd Siencyn yn codi pryderon sydd gan Cyngor Cymuned Llanllechid am dai fforddiadwy yn Nyffryn Ogwen. Derbynwyd ymateb. Y Clerc i yrru yr ymateb ymlaen i Gynghorau Cymuned Bethesda a Llandygai am ei sylwadau.

**4.10 Ysbwriel –**Derbynwyd anfoneb am waith y Swyddog Cynhaliaeth. Cytynwyd i **dynnu** oddi ar y cofnodion.

**4.11 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre** – Ffens wedi pydru. cafodd y mater yma ei drosglwyddo i sylw ei'n swyddogion strwythurau ar y pryd oherwydd y gylfat gyfagos. Mae'r rel uchaf i weld wedi ei ddifrodi oherwydd bod garreg coping wedi disgyn arno, ond nid yw'n cyflwyno perygl i ddefnyddwyr y ffordd yn ei gyflwr presennol. Mi wneith yr arolygwr codi archeb i adnewyddu'r ffens unai drwy osod coed newydd neu ail-osod

y coed presennol, ac ail-osod y garreg coping yr un pryd. Mr Ian Morgan  yn cadarnhau hyn 12-9-24.

**4.12 Bin wrth Mynwent Llanllechid –** Bin wedi ei ail leoli. Cytynwyd i **dynnu** oddi ar y cofnodion.

**4.13 Cae Rhosydd** - Ffigyrau demograffeg y stad wedi ei derbyn gan ADRA. Y Clerc i yrru ymlaen i CC Bethesda a Llandygai am ei sylwadau.

**4.14 Lon Wig -** Adroddwyd fod  terfyn cyflymder y llwybr yn 60mya, gyda cerddwyr, beicwyr a cerbydau ar yr un llwybr.
Y Clerc wedi derbyn ymateb gan yr Is-adran y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
'Mae swyddogion Llywodraeth Cymru dal yn ystyried y mater hwn ar hyn o bryd a byddwn yn ymateb i chi cyn gynted â phosibl.'

**4.15 Tai Fforddadwy Botwnnog -** Adroddwyd fod erthygl yn rhifyn mis Mai o 'Llanw Llŷn.' Nodwyd gwrthwynebiad cryf at ddatblygiad Cae Capel. Llythyr yn tynnu sylw Cyngor Cymuned Botwnnog at achos Cae Rhosydd wedi ei yrru. Derbynnwyd ymated gan Y Cyng. Gareth Williams, yn gofyn a fydda ni'n hapus iddo rannu ein llythyr gyda'r Swyddog Cynllunio yn Cyngor Gwynedd sy'n edrych ar y cais. Cytynwyd. Dim diweddariad.

**4.16 Mynwent Llanllechid** - Y Clerc i wneud ymholiadau am dorri y gordyfiant.

**4.17 Torri gwair Bro Emrys –** Y Clerc wedi derbyn dau dyfynbris am y gwaith.  DE Williams ac Adam Roberts.
Pendefynwyd dderbyn dyfynbris Adam Roberts. Bydd angen i Adam yrru manylion yswiriant at Y Clerc.

**5. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**

Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Mae Rhybudd Cadarnhau wedi ei osod ac mae'r newid yn weithredol o 1 Medi 2024.
O'r dyddiad yma, bydd angen derbyn caniatâd cynllunio cyn newid defnydd eiddo preswyl i fod yn ail gartref, llety gwyliau tymor-byr neu ddefnydd cymysg penodol.

Mi fydd tîm o Cyngor Gwynedd yn clirio tyfiant palmentydd o gwmpas Llandygai yn fuan. Y Cyng Dafydd Meurig am gysylltu gyda Y Clerc pan fydd dyddiad ganddo.

Atgoffwyd fod cais gan Cyngor Gwynedd am safleoedd posib a allai fod yn addas i'w datblygu a'u gwarchod o fewn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl). Bydd y gofrestr ar gyfer cyflwyno Safleoedd Posib yn cau ar 2 Hydref 2024.

**6. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Dyffryn Ogwen | Ysgoloriaeth | £150 |
| DE Williams | Strimio ochrau caeau chwarae TYB | £96 |
| Partneriaeth Ogwen | 2 x Pad ar gyfer defib | £96 |
| Evan Jones | Petrol i'r Mower | £15.88 |
| Rhydian Williams | Petrol i'r Mower | £16.61 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwaith Swyddog Cynnal | £45 |
| | | |
| Cyfrif Mynydd | | |
| Partneriaeth Ogwen | Stamps | £42.50 |
| Richard Temple Morris | Taliad Bugail | £1999.99 |

**7. Y Mynydd**

PCSO Rhys Evans o adran Troseddau Gwledig yr Heddlu yn awyddus i ymuno ac un cyfarfod. Y Clerc i'w gwahodd i gyfarfod nes ymlaen yn y flwyddyn.

Ymunodd Abbie Edwards, o'r Ymddiriedolaeth Cenedlaethol, â'r cyfarfod i drafod cynllun datblygu integredig, Cyfoeth Naturiol Cymru. Mi fydd cyfarfod yn cael ei drefnu i grybwyll syniadau.

Llythyr wedi ei yrru i borwyr y mynydd yn awgrymu newid yn y rheolau mynydd i gynnwys cymal ar gyfer ffermwyr ifanc. Y llythyr hefyd yn cynnwys yr awgrymiad o greu 'Cymdeithas Porwyr'. Porwyr i yrru sylwadau i'r Clerc erbyn 30/9/24.

Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad oddi wrth Richard Temple Morris, Bugail Mynydd/Setiwr. Y Clerc i ysgrifennu llythyr yn diolch i Richard am ei waith ar y mynydd.

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

**8.1** Cyfarfu Y Cynghorwyr Evan Jones a Wyn Bowen Harries a Sion Eifion Jones (Swyddog Prosiect Cymunedol, ADRA) a Michael Evans (Cydlynydd Rheoli Tir, ADRA). Mae ADRA yn cyflwyno grant hyd at £1,000 tuag at brosiectau cymunedol. Ond, bydd raid i'r cais ddod gan banel etholedig o'r gymuned wedi ei gofrestru ac efo cyfansoddiad a chyfrif banc. ADRA am wirio hyn.
Gallai'r man parcio fod yn broblemus o safbwynt hawl cynllunio ond i gysylltu â Steffan Jones, Uwch Reolwr Priffyrdd i drafod hyn. Disgwyl diweddariad.
Cafwyd cadarnhad nid oes cyfleustodau ar y cae. Y Clerc wedi gyrru copi o'r cynlluniau i'r Cyng Dafydd Meurig.
Cytynwyd i **dynnu** oddi ar y cofnodion.

**8.2 Contractwyr** - Cafwyd rhai dyfynbrisiau gan contractwyr am y gwaith. Yn aros am ddyfyniadau pellach. Dim diweddariad.

**8.3 Parcio –** Y Cyng. Evan Jones am wneud ymholiadau ynglyn a oes angen hawl cynllunio. Y Clerc i yrru cynllun y Cae chwarae/Maes Parcio i'r Cyng. Dafydd Meurig. Dim diweddariad.

**8.4 GwyrddNi –** Trefnwyd bore garddio cymunedol llwyddiannus yng nghae chwarae Talybont gyda gwirfoddolwyr y gymuned a Mr Barry Roberts, Garddwr Cymunedol.

**8.5 Asesiad Risg –** Y Clerc i drefnu cael diffoddwr tân ac eitemau cymorth cyntaf i container y mower.

**9. Llyfrgell Cymunedol/ Community library**

Cafwyd esboniad gan Y Cyng Dafydd Meurig am y biliau trydan a derbynwyd, mi fydd yn trefnu cael dadansoddiad mwy manwl.

**10. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Medi 2024'

**11. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Dim.

**12. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

**C24/0452/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda

Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Pendderfyniad** Ar y gweill
Hoffai'r Cynghorwyr wrthod cefnogi'r cais hyd nes bod cynlluniau mewn lle i ailblannu coed.

**Ceisiadau Newydd**

**NP3/21/T78**
Hen Ysgubor, Ty'n-y-Maes, Nant Ffrancon
Amrywio Amodau 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) ac 8 (Maint y cerbydau danfon) ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio NP3/21/T78
**Penderfyniad** Ar y gweill

**13. Materion Brys/Eraill**

**Giat mynydd Rachub –** Derbynwyd cwyn gan aelod o'r gymuned, nid yw'r giât yn hygyrch ar gyfer pramiau. Y Clerc i rannu rhif Y Cyng Kevin Williams.

**15. Adroddiad Llais Ogwan**

Diolch i Abbie Edwards, o'r Ymddiriedolaeth Cenedlaethol, am ymuno a ni ar gychwyn y cyfarfod i drafod merlod y mynydd. Mwy ar hyn i ddod mis nesaf.
Mae'r gwaith celf yn dod yn ei flaen yn yr hen safle bws, Talybont. Edrychwn ymlaen I weld y brosiect gorffenedig yn fuan.
Diolch yn fawr iawn hefyd i Richard Temple Morris am ei waith caled dros y blynyddoedd fel Bugail/Setiwr y mynydd.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________